

Cynnwys y Cynllun Gweithredu:


Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys Afonydd a nentydd¹ gyda'r cynefinoedd sydd yn gysylltiedig â choridorau afonydd.

1. SEFYLLFA BRESENNOL**1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth**

Rhyngwladol	Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd ^a (Atodiad I) (Rhai coridorau afonydd)
Prydain a Chymru	Deddf Traenio Tir 1991 Deddf Adnoddau Dwr 1991 Nifer o ddyletswyddau rheoli dyfroedd Asiantaeth yr Amgylchedd a dyletswyddau rheoli llygredd Deddfwriaeth SoDdga ^b (Coridorau rhai afonydd)
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Yn eu ffurf naturiol, mae afonydd yn systemau deinamig, yn newid eu ffurf beunydd. Fodd bynnag, mae eu gallu i adnewyddu a chreu cynefinoedd newydd wedi ei lesteirio neu ei leihau gan rwystrau ac argaeau. Nifer fach iawn o afonydd ym Mhrydain sydd heb eu newid yn ffisegol gan ddyd, ac mae'r afonydd hynny yn adnoddau gwerthfawr iawn. Erydwyd glannau afonydd hefyd gan ganaleiddio a thynnu ymaith y gorchudd coed a arferai fod yno. Mae camau o'r fath wedi arwain at newidiadau ym maint ac amllder gorlifiad, gan newid patrwm y llif dŵr tymhorol a blynyddol. Hefyd, mae rheoli llif wedi newid patrwm symud gwaddol ac wedi newid y maeth a geir yn yr afonydd. Gall unrhyw ewtroffeiddio gael effaith andwyol ar gynefinoedd sydd wedi eu lleoli ar wastadedd gerllaw'r brif afon

**1.3 Sefyllfa yng Ngwynedd^c**

Mae nifer fawr o goridorau afonydd yng Ngwynedd, er na wyddom beth yw cyfanswm hyd yr holl afonydd. Mae cymeriad pob un o'r afonydd hyn yn newid fel yr ânt rhagddynt. Yn y mynyddoedd gallant ymddangos fel nentydd cyflym a gwyllt, gan arafu, lledu a throelli wrth gyrraedd y gwstatir nes ffurfio aberoedd wrth ddoed yn agos at y môr. Mae tarddle nifer fawr o'r afonydd hyn yn gorwedd o fewn ffiniau PCE.

^a Cyfarwyddid Cyngor 92/43/EEC 21 mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a bywyd gwyllt

^b Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

^c O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb.

2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y CYNEFIN HWN YNG NGWYNEDD

- Pori glannau afonydd heb reolaeth, sydd yn arwain at erydu a gwaddodi, yn lleihau datblygiad naturiol coedydd ac yn effeithio ar addasrwydd cynefinoedd glannau afonydd ar gyfer rhywogaethau megis y dyfrgi a'r llygoden ddŵr
- Llygru afonydd, gan gynnwys gwasgaru gweddillion pryfleiddiaid, nitradau, gwastraff fferm; llygru uniongyrchol oherwydd gwaredu carthffosiaeth; llygriad aer yn arwain at asideiddio.
- Newidiadau mewn defnydd tir o fewn dalgylchoedd afonydd, megis plannu coed a chynnyddu graddfa stoc ar dir uchel, ffactorau y tybir fydd yn arwain at gynnydd mewn dŵr rhedeg, pwysau trymach o lifwaddod a chynnydd mewn asidedd
- Hanes rheolaeth afon, yn cynnwys gwaith amddiffyn rhag llifogydd megis glanhau, sythu a chamlasleiddio afonydd, ynghyd â thraenio tiroedd.
- Datblygiadau anaddas ar y gorlifdir.
- Planhigion ymledol "ecsotig" megis y Canclwm Siapancaidd a Balsam yr Himalaaid sydd yn lladd planhigion cynhenid ar lannau afonydd. Mae'r minc a fewnforwyd o Ogledd America hefyd yn fygythiad i greaduriaid yr afon megis y llygoden ddŵr. Mae stocio afon gyda physgod nad ydynt yn gynhenid hefyd yn effeithio'n andwyol ar bysgodfeydd cynhenid.
- Clwy phytophora, sef clwy ffwng a gludir mewn dŵr, sydd yn farwol i goed gwern ac fe'i canfyddir yn nalgylchoedd y Seiont a'r Glaslyn.
- Cloddio graean ar gyfer defnydd masnachol neu leol - gall hyn arwain at brinder graean mewn afonydd a nentydd, gan arwain at ddifrodi - a cholli - safleoedd claddu ac at brinder gwaddod yn yr afonydd.
- Newid lefelau dŵr - trwy ddraenio tir, rheoli gorlifiad, tynnu dŵr o afonydd, ac o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, y posibilrwydd o gyfnodau hir o orlifiad a / neu gyfnodau hir o sychder.
- Aflonyddu oherwydd cynnydd mewn gweithgareddau hamdden yn ymwneud â dŵr

3. CGR a CGC PERTHNASOL i WYNEDD

Coedtiroedd gwlyb, Morfa pori arfordirol a gorlifdirol, Gwlyptiroedd, Llynnoedd, pyllau a ffosydd,

Dyfrgi, Ffwlbart, Llygoden ddŵr, Ystlum Bedol Leiaf, Ystlumod, Torgoch, Lamprai, Eogiaid, Troellwr, Misglen berlog yr afon, Llyriad nofiadwy.

4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall y cyfan neu ran o goridor afon fod wedi ei nodi fel safle Bywyd Gwylt posibl, neu fod wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae rhai coridorau afonydd o fewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi fel ymgeisyddACA - (Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn - rheswm pennaf dros eu dewis fel safleoedd, Coedydd Derw a safleoedd Ystlumod Meirionnydd - cynnwys nodweddion sy'n gymwys).
- Mae angen AEA ar gyfer rhai datblygiadau o fewn coridorau afonydd, ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal AEA ar bob gwaith mewnol yn cynnwys gwaith atal llifogydd arferol ac arbennig
- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu deddfwriaeth berthnasol fel yr amlinellwyd uchod, trwy roi trwyddedau a chaniatâd arllwys, trwyddedau tynnu dŵr o afon, Caniatâd Traenio Tir, a Chaniatâd Dŵr Daear.

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n llunio arolwg o ymarfer gorau ar gyfer cynnal a chadw systemau traenio tir isel. Mae'r adain Amddiffyn rhag Llifogydd yn defnyddio bwced torri chwyn Bradshaw ar gyfer yr holl waith rheoli ffosydd er mwyn lleihau i'r eithaf y difrod i wreiddiau tyfiant. Mae hefyd yn rhoi cynlluniau gwella ar waith er mwyn gwrthsefyll difrod yn ystod gweithgareddau amddiffyn rhag llifogydd.

- Mae cynlluniau creu a rheoli cynefinoedd wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn nifer o dalgylchoedd afonydd, ac wedi eu hariannu'n aml gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol e.e. ESA Llŷn, Tir Gofal. Gellir cynnwys ffosydd mewn cynlluniau ffermydd cyfan yn y cynllun amaeth-amgylcheddol a weithredir gan Cyngor Cefn gwlad Cymru (taliadau am greu cynefinoedd newydd ar gyfer coridorau ochr afonydd). Mae tir glas gorlifdir wedi ei gynnwys fel cynefin swyddogol o fewn Tir Gofal.
- Mae cynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnwys nifer o gamau perthnasol i'r cynefin hwn.
- Trwy Grŵp Mamaliaid Gogledd Orllewin Cymru, sefydlwyd prosiect mamaliaid afonydd ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Menter Môn ac Chymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru, a bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwaith i wella cynefinoedd. Yr ardal peilot yng Ngwynedd fydd dalgylch yr afon Glaslyn, a cychwynodd y gwaith yng Ngwanwyn 2003, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y prosiect i dalgylchoedd eraill yn y dyfodol.
- Mae Menter Pysgota Cynaladwy Gwynedd yn defnyddio arian Amcan 1 er mwyn gwella cynefinoedd yn nalgylchoedd rhai o afonydd Gwynedd sydd yn bwysig o safbwynt pysgodfeydd, gan ddod â manteision bioamrywiaeth iddynt hefyd.
- Mae prosiect Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt - sydd yn brosiect dros Brydain gyfan - dan ofal yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, ac yn bwriadu gwneud gwaith cadwraethol gyda chymunedau lleol mewn cynefinoedd glannau afonydd a thiroedd gwlyb. Ar y funud mae un rheolwr dros Gymru, ac yn fuan iawn penodir hefyd swyddog prosiect ar gyfer Gogledd Cymru.
- Fel rhan o'r Prosiect Glanhau Afonydd (Cadw Cymru'n Daclus) mae ar y funud bump o grwpiau Gofal Afonydd yng Ngwynedd (y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Hyd yma mae'r gwaith prosiect wedi cynnwys casglu sbwriel, rheoli llystyfiant a darparu blychau adar.
- Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar y funud raglen rheoli Canclwm Siapaniaidd ar gyfer Afon Ogwen.

4.3 Arolygu, ymchwilio a monitro

- Mi fydd y prosiect mamaliaid dŵr yn cynnwys arolygon dyfrgwn, llygod dŵr, a minc.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cael gwell dealltwriaeth o'r bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â choridorau afonydd yng Ngwynedd.
2. Gwella ansawdd a maint cynefinoedd sydd yn bodoli ar goridau afonydd, a sicrhau eu bod yn alluog i gynnal y rhywogaethau perthnasol.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ^d
Polisi a deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau bod datblygiadau mewn ardaloedd sensitif yn cydweddu gyda chadwraeth coridorau afonydd TARGED/AMSERLEN: cyfredol	CG, partneriaid perthnasol
2	Cynnwys mesurau cadwraeth ar gyfer coridorau afonydd yn yr holl gynlluniau AA a gyhoeddir yn y dyfodol. TARGED/AMSERLEN: cyfredol	AA
3	Sicrhau bod pob enghraifft o'r cynefin hwn sydd yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi fel safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED: Cychwyn y broses o ddynodi yn ystod 2004	CG, AA, CBNGC, DBG
4	Parhau i reoli a diogelu cynefinoedd fel rhan o Fenter Pysgota Cynladwy Gwynedd mewn cydweithrediad â chymdeithasau Pysgota TARGED/AMSERLEN: cyfredol	AA, CG, CCGC
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
5	Cefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheolaeth er mwyn sicrhau rheolaeth ffafrioll o goridorau afonydd, gan gadw mewn cof anghenion y rhywogaethau CGB dan sylw. TARGED/AMSERLEN: i'w osod/cyfredol	AA, CCGC, CyT, UCF, GCFFBGCG, CG, UAC
6	Parhau gyda phrosiect mamaliaid dŵr afon sydd wedi ei sefydlu, a'i ehangu trwy geisio rhagor o gymorth grant fel rhan o brosiect grant bioamrywiaeth a fyddai yn cynnwys grantiau ar gyfer rholaeth addas o goridorau afonydd. TARGED: i'w osod erbyn 2005	CG, paertneriaid perthnasol
7	Sicrhau y caiff cynnal a gwella cynefin glan afon a'r rhywogaethau a chynefinoedd CGB eu hystyried o fewn unrhyw gynlluniau rheoli neu gynlluniau grant (yn cynnwys CRCC, CGC, Tir Gofal, AAS) trwy gyfathrebu(gan gynnwys ymgynghori a sylwadu) rhwng y prif partneiaid agan gynnwys AA TARGED: Ar y gweill	AA, CCGC, CC, CCh, CG
Ymgynghorol		
	Dim wedi ei nodi	NA
Arolwg, ymchwilio a monitor		
8	Ymchwilio ar raddfa dalgylch i adnabod ardaloedd gyda problemau	AA, CCGC, AACHG, CG, HGC
9	Gwella data rhywogaethau / cynefinoedd ar gyfer y prif goridorau afonydd trwy arolwg ecolegol, mewn partneriaeth â grwpiau lleol yn cynnwys Cymdeithasau Pysgota Lleol, grwpiau prosiect Glanhau Afonydd a gwirfoddolwyr lleol, ac â'r rhai hynny sydd yn cynnal arolygon cyffelyb o fewn y Parc Cenedlaethol ac ardaloedd cyfagos. Sicrhau bod yr arolygon wedi eu cynnwys yn y rhaglenni arolwg ar gyfer Cymru / Prydain. TARGED: Arolygon sylfaenol ar gyfer yr holl brif goridorau afonydd erbyn 2009	GC, Prosiect Dyfrgwn Afon Dwyryd, Prosiect Dyfrgwn Afon Aber, DBG

^d Dangosir y partner sy'n arwain ar y weithgaredd hon mewn print trwm, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cyfathrebu a chyhoedduswydd		
10	Trefnu hyfforddiant ar gyfer swyddogion Tir Gofal ar reoli coridorau afonydd. TARGED: i'w sefydlu	CCGC
11	Cefnogi ffurfio rhagor o grwpiau Gofal Afonydd, a'u hannog i ffurfio prosiectau fydd yn cyfrannu tuag at gynnal a gwella TARGED: cyfredol	CG, Prosiect Glanhau Afonydd gan Cadw Cymru'n Daclus
12	Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau Rheoliadau Dwr daear 1998 yn enwedig mewn perthynas i ddefnydd dip defaid.	AA, HGC

7. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

7.1 Prif Bartner I Arwain Ar Y CGC

Asiantaeth yr Amgylchedd (AA)

7.2 Partneriaid allweddol

Prosiect Dyfrgwn Afon Aber

Prosiect Dyfrgwn Afon Dwyrdd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Adran yr Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (AAChG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwylt (GCFfBG)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cyngor Gwynedd (CG)

Cadw Cymru'n Daclus (CCD)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Heddlu Gogledd Cymru (HGC)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Dwr i Fywyd Gwylt (DBG)

7.3 Cyfleoedd

Cymdeithasau Pysgota, Grwpiau Prosiectau Glanhau Afonydd, Grwpiau Cymunedol, Gwirfoddolwyr

8. DIOLCHIADAU

Awdur: Dave Thorpe (AA) (gyda Rachel Thorpe) (AAMG)

Ymgynghorwyr: Robert Greig (Prosiect Dyfrgwn Môn), Carri Lane (AA) Jill Jackson (GC)

Lluniau llinell: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, **AEA:** Asesiad Effaith Amgylcheddol, **AAS:** Ardal Amgylcheddol Sensitif, **CGC:** Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, **JNCC:** Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur, **CGR:** Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, **SoDGA:** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, **CGC:** Cynllun Grantiau Coetiroedd

¹ Dosbarthiad Grwp Bioamrywiaeth DU - Jackson, D.L. 2000. Cyfarwyddyd ar ddehongliad Dosbarthiad Cynefin Eang Bioamrywiaeth (mathau tirol a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas gyda dosbarthiadau cynefin arall. Adroddiad JNCC Rhif 307.